

<b>PWYLLGOR:</b>	<b>IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>16 Mehefin 2021</b>
<b>TEITL:</b>	<b>CAIS AM DRWYDDED EIDDO - Y CROCHAN</b>
<b>PWRPAS:</b>	<b>ER PENDERFYNIAD</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>PENNAETH AMGYLCHEDD</b>

## **1. CAIS A DDERBYNIWYD**

- 1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Y Crochan, 9-11 Hole in the Wall Street, Caernarfon Gwynedd, LL55 1RF. Mae'r ymgeisydd MUNCHIO (cwmni cyfyngedig) yn ceisio trwydded eiddo ar gyfer bwyty a fydd yn gweini bwyd dros tri llawr, gyda'r opsiwn i gael ystafell gyfarfod ar y trydydd llawr.
- 1.2 Gwneir y cais mewn perthynas a gwerthu alcohol ar ac oddi ar yr eiddo.
- 1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.
- 1.4 Derbyniwyd sawl gwrthwynebiad i'r cais gan preswylwyr cyfagos, gan gynnwys aelodau cymdeithas preswylwyr. Nid oedd sylwadau na gwrthwynebiadau gan yr Heddlu na'r Gwasanaeth Tân.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

### **Oriau Agor / Opening Hours:**

Dydd Sul/Sunday	09:00 - 24:00
Dydd Llun/Monday	09:00 - 24:00
Dydd Mawrth/Tuesday	09:00 - 24:00
Dydd Mercher/Wednesday	09:00 - 24:00
Dydd Iau/Thursday	09:00 - 24:00
Dydd Gwener/Friday	09:00 - 24:00
Dydd Sadwrn/Saturday	09:00 - 24:00

### **Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activities:**

#### **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises**

Dydd Sul/Sunday	09:00 - 23:30
Dydd Llun/Monday	09:00 - 23:30
Dydd Mawrth/Tuesday	09:00 - 23:30
Dydd Mercher/Wednesday	09:00 - 23:30
Dydd Iau/Thursday	09:00 - 23:30
Dydd Gwener/Friday	09:00 - 23:30
Dydd Sadwrn/Saturday	09:00 - 23:30

## **2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu**

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Gweithredir system Teledu Cylch Cyfyng i foddhad y Cyngor â'r Heddlu
- Hyfforddi staff ar werthiant alcohol, gweithredu cynllun profi oed 25 a chadw cofnod gwrthodiad

- Adlynu i bolisiau diogelwch tan o dan oruchwyliaeth gwasanaeth lleol diogelwch tan
- Sicrhau cludiant nwyddau ar amser priodol a fod biniau yn cael eu gwagio fel nad ydynt ymyrryd ar cymdogion cyfagos

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

### **3. YMGYNGHORIAD**

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

<b>YMATEBION</b>	<b>SYLWADAU</b>
Aelodau'r cyhoedd / preswylwyr cyfagos	E-byst – gwrthwynebiad

#### **3.2 Aelodau'r cyhoedd a phreswylwyr cyfagos**

Cafwyd 3 gwrthwynebiad i'r cais ar sail y ddau amcanion trwyddedu o:

- Atal niwsans cyhoeddus
- Diogelwch y cyhoedd

Mynegwyd pryderon ar faterion gwrthgymdeithasol o ran sŵn a niwsans cyhoeddus, a fod byrddau y busnesau yn rhwystr i'r preswylwyr cyfagos.

### **4 ARGYMHELLIAD**

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn cymeradwyo'r cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.